Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

# Proses hunan-asesu i fesur cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg

Mawrth 2024

## Cefndir

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn sefydliad sy'n darparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol ar gyfer y sector iechyd. Mae'r Bartneriaeth wedi'i lletya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac wedi bod yn gweithredu safonau'r Gymraeg ers 2019.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Comisiynydd wedi galw ar sefydliadau i wella eu trefniadau hunan-reoleiddio yng nghyd-destun y Gymraeg. Mae wedi pwysleisio'r angen i sefydliadau gael trefniadau cadarn mewn lle i arolygu a gwirio eu gwasanaethau a chynnal prosesau gwellhad parhaus ar gyfer cydymffurfiaeth gyda safonau'r Gymraeg.

## Beth wnaeth ysgogi'r newid?

Yn hanesyddol, arferai'r Bartneriaeth gasglu gwybodaeth am gydymffurfiaeth trwy gynnal cyfarfodydd blynyddol gyda phob tîm gwasanaeth. Gwelwyd fodd bynnag, nad oedd y trefniadau hyn yn ddigonol er mwyn cael darlun clir o gydymffurfiaeth yr holl adrannau ar draws y sefydliad. Roedd angen trefniadau gwell er mwyn sicrhau cyfrifoldeb ac atebolrwydd mewnol am weithredu'r safonau ym mhob adran yn unigol, gan roi sylw penodol i oruchwylio cydymffurfiaeth.

Roedd yr hen arfer o gynnal cyfarfodydd blynyddol gyda phob tîm gwasanaeth yn annigonol ac yn feichus o ran adnoddau ac amser y swyddog oedd yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth y sefydliad gyda safonau'r Gymraeg. Yn dilyn pandemig COVID-19, a'r pwysau ychwanegol roddwyd ar gyrff o fewn y sector iechyd ar y pryd, adnabuwyd bod angen proses fwy trylwyr a chyson o gasglu gwybodaeth.

Aeth y Bartneriaeth ati i fabwysiadu dull mwy soffistigedig a chynhwysfawr o gasglu tystiolaeth ar gydymffurfiaeth â safonau. Datblygwyd holiadur hunan-asesu lle bo angen i bob tîm gwasanaeth unigol ei gwblhau. Mae hyn wedi galluogi'r Bartneriaeth i fesur cydymffurfiad â safonau ar draws y sefydliad yn well a sicrhau bod tystiolaeth bwrpasol yn cael ei chasglu gan bob tîm ar lefel ei gydymffurfiaeth. Mae hyn hefyd wedi hwyluso'r

broses o gasglu gwybodaeth ac adrodd ar gydymffurfiaeth yn flynyddol fel sy'n ofynnol dan y safonau.

Bellach mae'r holiaduron hunanasesu yn cael eu rhannu gyda phenaethiaid gwasanaeth ar ddechrau chwarter pedwar y flwyddyn ariannol. Rhoddir wyth wythnos i bob adran i gwblhau a chyflwyno'r holiaduron. Yn dilyn hynny, mae'r Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg yn casglu'r data sydd ar gael yn yr holiaduron i adrodd yn fanwl gywir ar berfformiad blynyddol y sefydliad.

## Pa gamau oedd rhaid eu cymryd er mwyn gwneud y newid?

Cymerwyd cyfres o gamau strategol i osod y sylfaen ar gyfer newid.

Yn gyntaf, rhaid oedd trafod â'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn â'r trefniadau goruchwylio newydd yn cael eu rhannu â'r holl adrannau. Roedd cyfathrebu â'r staff drwy'r Uwch Dim Rheoli yn rhoi statws uchel i'r gwaith ac yn cadarnha bod cefnogaeth ac awdurdod o frig y sefydliad i'r gwaith hwn.

Yn dilyn hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd uniongyrchol gyda phenaethiaid pob gwasanaeth i gyflwyno'r newidiadau a sicrhau dealltwriaeth glir o'r disgwyliadau oedd yn gysylltiedig â'r broses newydd.

At hynny, mabwysiadwyd dull cyfathrebu wedi'i dargedu, gan ymestyn yn benodol i benaethiaid gwasanaeth cyn cychwyn chwarter 4 a thrwy nodiadau atgoffa cyfnodol. Y nod oedd atgyfnerthu'r neges drwy atgoffa a'u ysgogi i gymryd camau amserol i weithredu a chwblhau'r holiadur hunanasesu o fewn yr amserlen a bennwyd.

## Beth yw'r manteision?

Mae'r holiadur hunan asesu wedi caniatáu i'r Bartneriaeth gasglu tystiolaeth manwl am y ffordd y mae pob adran yn y sefydliad yn gweithredu gofynion y safonau yn ymarferol yn eu meysydd gwaith.

Mae'r Bartneriaeth wedi adnabod bod cynnwys yr holiaduron hyn yn seilwaith gadarn i gynnal trafodaethau adeiladol gyda'u penaethiaid gwasanaethau, creu cynlluniau gweithredu er mwyn gwella arferion a rhannu arferion da. Mae hefyd wedi galluogi'r sefydliad i adnabod a herio gweithdrefnau confensiynol y sefydliad er mwyn gallu gwneud gwelliannau.

Mae'r wybodaeth gefndirol yn yr holiadur hefyd yn sicrhau bod penaethiaid gwasanaethau yn dehongli'r safonau yn gywir, ac felly, yn llunio gwasanaethau, gweithrediadau a pholisïau yn seiliedig ar ofynion y safonau.

Yn ogystal, mae'r broses adrodd wedi rhoi mwy o gyfrifoldeb ar staff i ddogfennu cydymffurfiaeth yn fanwl a darparu tystiolaeth ddibynadwy i gyfiawnhau eu hatebion ynghylch eu perfformiad yn erbyn y safonau.

Drwy sefydlu ffordd gyson o gasglu gwybodaeth am gydymffurfiaeth, mae hyn wedi galluogi timau i gymharu eu gweithredoedd a'u perfformiad â thimau eraill yn y sefydliad yn haws. Mae hyn wedi arwain at gyfleoedd i dimau rannu a mabwysiadu arferion gorau ar gyfer goresgyn rhwystrau cyffredin i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn ogystal â gwella cysondeb yn y gwasanaethau hynny.

## Pa gyngor fyddech chi'n ei gynnig i sefydliad sydd yn awyddus i fabwysiadu trefniadau tebyg?

Os yw sefydliad yn ceisio newid ei arfer presennol, mae'r Bartneriaeth yn nodi y byddai'n ddoeth i ddilyn y darnau allweddol hyn o gyngor:

- Dechreuwch drwy sicrhau cymeradwyaeth a chefnogaeth yr Uwch Dîm Rheoli, gan fod eu cefnogaeth yn hanfodol ar gyfer aliniad sefydliadol a phontio llyfn o un gyfundrefn i'r llall.
- Mynegi pwrpas y weithdrefn yn glir. Mae hyn nid yn unig yn gweithredu fel map ffordd ar gyfer gweithredu ond hefyd yn galluogi'r sefydliad i fesur llwyddiant y weithdrefn maes o law.
- Rhoi rhybudd amserol am y newidiadau sydd ar ddod i alluogi unigolion o fewn y sefydliad i baratoi am y newid.
- Pwysleisiwch natur orfodol y system newydd i sicrhau ymrwymiad staff i'r drefn newydd.
- Hyrwyddo diwylliant sy'n croesawu heriau ac yn annog archwilio dulliau gwasanaeth gwahanol neu well. Grymuso unigolion i gynnig syniadau arloesol, gan feithrin meddylfryd gwelliant parhaus.
- Sefydlu seilwaith cadarn ar gyfer trafodaethau parhaus a rhoi cynlluniau gweithredu mewn lle.


### Manylion cyswllt

Sefydliad: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

E-bost: non.richrards@wales.nhs.uk

Swyddog cyswllt: Non Richards (Swyddog y Gymraeg)


## Barn Comisiynydd y Gymraeg

Mae Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg yn pwysleisio bod angen i sefydliadau gymryd cyfrifoldeb eu hunain dros sicrhau eu bod yn cydymffurfio fel y dylent â safonau'r Gymraeg. Hynny yw, mae'n rhaid iddynt hunan reoleiddio'n effeithiol.

Un ffordd o sicrhau hyn yw mabwysiadu fframwaith monitro mewnol cadarn er mwyn casglu gwybodaeth am gydymffurfiaeth, a sicrhau bod staff ym mhob rhan o'r sefydliad yn cymryd cyfrifoldeb am y Gymraeg.

Mae'r Bartneriaeth wedi rhoi proses hunan reoleiddio cadarn mewn lle o fewn y sefydliad sydd yn gwneud y Gymraeg yn rhan o gyfrifoldebau pob adran yn y sefydliad, ac yn ysgogi staff i wneud newidiadau cadarnhaol i wella'r ddarpariaeth Gymraeg sy'n cael ei gynnig.